# cff

TYFU BUSNES GYDAG ARLOESEDD

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

**RHIFYN 2** - Mawrth / Ebrill 2016



## RHAGWELD EICH LLIF ARIAN AR GYFER 2016

Awgrymiadau ynglŷn â pharatoi cyllideb ar gyfer eich busnes a sut i ragweld eich llif arian.



## RHWYDWAITH ARDDANGOS

### COLEG CAMBRIA LLYSFASI

Yn y rhifyn hwn - Coleg Cambria Llysfasi yn trafod eu prosiect uchelgeisiol newydd - gwerthuso rôl geneteg hyrddod mewn marwolaethau ŵyn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tudalen 11.
Swyddog Technegol
**Jamie McCoy**



Tudalen 12.
**Digwyddiadau**
Beth sy'n mynd ymlaen yn eich ardal chi...

# CYFLWYNIAD



CROESO i ail rifyn cyhoeddiad technegol newydd Cyswllt Ffermio ar gyfer ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru.

Wedi'i gyhoeddi bob yn ail fis, bydd yn cynnwys ffeithiau a ffigyrau hawdd i'w defnyddio yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion technegol, ynghyd â'r wybodaeth a'r ymchwil diweddaraf o'n Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth newydd, gyda'r nod o atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng ymchwilwyr a'r sectorau fferm a choedwigaeth.

Bydd hefyd yn cynnwys diweddariadau a chanlyniadau sy'n deillio o dreialon a gynhelir ar Safleoedd Arddangos ledled Cymru, sy'n anelu at dreialu a phrofi arloesedd a thechnoleg newydd mewn sefyllfa ymarferol a masnachol.

Gobeithiwn y bydd ein cyhoeddiad technegol CFf yn cynnig trosolwg i chi ynglŷn ag agweddau technegol y prosiect, gan eich galluogi i gael mynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf fydd yn fanteisiol i'ch busnes.

Yr Athro E. Wynne Jones
Cadeirydd Bwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

**Cyswllt Ffermio**
- rhaglen gefnogaeth newydd, estynedig i ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru.

Cofrestrwch ar gyfer y rhaglen newydd heddiw!

08456 000 813

**https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ffurflen-gofrestru-cyswllt-ffermio**

## Gwneud y defnydd gorau o faethynnau yn eich glaswelltir y gwanwyn hwn

### Chris Duller, arbenigwr pridd a glaswelltir

**Mae defnydd effeithlon o faethynnau yn golygu trawsnewid cymaint o nitrogen (N), ffosffad (P) a photash (K) â phosib yn laeth neu gig; a gwastraffu cyn lleied â phosib. Yn anffodus gellir colli maethynnau'n haws, un ai mewn toddiant o fewn dŵr sy'n cael ei ddraenio, colledion ar ffurf nwyon i'r atmosffer, neu drwy olchi oddi ar gaeau a buarthau fel dŵr ffo.**

Mae dechrau'r gwanwyn yn gyfnod allweddol ar gyfer colledion maethynnau, yn enwedig nitrogen, o wrtaith a slyri, gan fod amodau'r tywydd yn aml yn wael, mae'r priddodd yn dal i fod yn oer a gwlyb ac mae glaswellt yn tyfu'n araf. Gall penderfyniadau da a wneir nawr ynglŷn â chyfraddau ac amser gwasgaru olygu'r gwahaniaeth rhwng tyfu digonedd o laswellt gwanwyn gwerthfawr neu beryglu gwastraffu'r rhan fwyaf o'r nitrogen.

Mae tymheredd y pridd yn un ffactor allweddol sy'n effeithio ar ymateb y glaswellt i'r nitrogen a roddir. Os yw'r priddoedd dan 5˚C nid yw'r planhigyn glaswellt na bacteria'r pridd yn ddigon gweithredol i ddefnyddio'r nitrogen, gan olygu ei fod mewn mwy o berygl o drwytholchi o'r pridd.


Mae gwefan Cyswllt Ffermio yn cyhoeddi tymheredd pridd yn ddyddiol o rwydwaith o safleoedd monitro ledled Cymru i helpu ffermwyr wneud penderfyniadau cytbwys ynglŷn â phryd i wasgaru. Peidiwch â chael eich twyllo i ruthro allan ar y diwrnod braf cyntaf, gan fod tymheredd yr aer yn aml yn wahanol iawn i'r tymheredd yn y pridd – edrychwch ar gyflwr y pridd cyn cychwyn arni.

Eleni, arhosodd tymheredd y pridd yn gymharol uchel drwy gydol mis Ionawr a dechrau mis Chwefror, ond mae bellach wedi cwympo mewn rhai mannau dan 5˚C. Mae'r gaeaf mwyn a gwlyb wedi golygu bod glaswellt wedi parhau i dyfu ond mae lefelau nitrogen y pridd yn isel, o ganlyniad i drwytholchi a dadnitreiddiad. Os bydd tymheredd y pridd yn sefydlogi dros 5˚C, dylai ychwanegu nitrogen fod yn flaenoriaeth, yn enwedig lle mae gorchudd sylweddol o laswellt sydd mewn perygl o golli ansawdd heb fewnbwn nitrogen. Dylid cadw ychwanegiadau nitrogen dan 40kgN/ha (32 uned/erw) tra bod tymheredd yn dal i fod yn isel a phriddoedd yn agos at fod yn dirlawn. Bydd cyflwr y tir yn ffactor gyfyngol i nifer – bydd unrhyw ddifrod a wneir gan olwynion nawr yn cael effaith ganlyniadol enfawr ar dyfiant yn hwyrach yn y tymor a gall gymryd misoedd i'r priddoedd wella.

Mae nifer o ffactorau eraill yn gallu gwella'r defnydd a wneir o faethynnau ar ddechrau'r tymor ac i hybu ymateb gadarnhaol i nitrogen – mae'r rhain yn cynnwys cael cyfran uchel o rygwellt yn y borfa, strwythur da i'r pridd gyda digon o le i aer a gweithgaredd pryfed genwair a sicrhau'r lefelau pH, ffosffad a photash cywir yn y pridd.

Er enghraifft, mae ymateb Maeswellt Penwyn i nitrogen yn ymddangos yn 40% yn unig o'r ymateb cyfatebol mewn Rhygwellt; mae Gweunwellt Unflwydd yn llai fyth ar 17%. Mae ymchwil wedi dangos lleihad mewn tyfiant o bron i 50% llae mae lefelau ffosffad un isel, a lleihad pellach o 10% trwy fod â pH pridd o dan 6.


Bydd diweddariadau blog ac erthyglau rheolaidd yn edrych ar y materion hyn ynghyd â chyngor ac arweiniad gan Chris Duller, a Swyddogion Technegol Cig Coch Cyswllt Ffermio, Lisa Roberts a Gethin Davies yn cael eu cyhoeddi dros yr wythnosau nesaf - felly cofiwch ymweld â'r wefan **https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/news-case-studies/post-type/pridd-glaswelltir-blog**.




Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig adnodd ar-lein yn ymwneud â thymheredd y pridd i gynorthwyo ffermwyr gyda phenderfyniadau rheoli porfa. Mae'r data'n cael ei ddarparu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn cael ei ddiweddaru'n ddyddiol.

# COLEG CAMBRIA LLYSFASI

## Gwerthuso rôl geneteg hyrddod mewn marwolaethau ŵyn




**Mae gan Goleg Cambria Llysfasi ger Rhuthun hanes hir o ddarparu addysg amaethyddol i ffermwyr y genhedlaeth nesaf, ac mae nifer o ffermwyr presennol Cymru yn gyn-fyfyrwyr yn y Coleg. Yn ddiweddar, penodwyd y fferm 1,000 erw, sy'n cynnwys mentrau llaeth, bîff a defaid, yn Safle Arloesedd ar ran Cyswllt Ffermio.**

Yn ystod y tymor ŵyna eleni, bydd Llysfasi yn cynnal prosiect uchelgeisiol sy'n cynnwys y dechnoleg DNA ac EID diweddaraf er mwyn ceisio lleihau marwolaethau ŵyn yn ystod y cyfnod allweddol hwn a sicrhau bod pob oen yn cyfri.

Bydd y prosiect, a fydd yn canolbwyntio ar y ddiadell gref o ddefaid mynydd Cymreig, yn anelu at weld a oes cysylltiad rhwng colledion ŵyn a geneteg hyrddod. Gan ddefnyddio arddull arloesol, bydd tad unrhyw ŵyn nad ydynt yn goroesi neu'r rhai a gafodd gymorth wrth eni, yn cael ei nodi gan ddefnyddio dadansoddiad DNA.

Gan ŵyna yn yr awyr agored, bydd y mamogiaid yn cael eu rhifo gyda phaent chwistrell cyn ŵyna - bydd hynny'n dileu'r angen i ddal y famog er mwyn cysylltu'r ŵyn â'u mamau, sy'n gallu bod yn dasg hirfaith ac yn gallu arwain at y famog yn gwrthod yr oen. Trwy gofnodi perfformiad a thechnoleg EID, bydd cefndir sgôr cyflwr corff y famog o'r cyfnod sganio hyd at ŵyna ar gael gan ei fod yn cael ei ystyried yn ffactor bwysig o ran cyfradd goroesi'r ŵyn.

Dylai'r wybodaeth eang sy'n cael ei gasglu ein galluogi i ganfod i ba raddau mae geneteg hyrddod yn effeithio ar gyfradd marwolaeth ŵyn o'i gymharu â rheolaeth mamogiaid. Yn y system eang hon, sy'n nodweddiadol o nifer o ffermydd ucheldir Cymreig, mae egni'r oen ar enedigaeth yn hanfodol. Gyda hynny mewn golwg, cynhelir dadansoddiad post mortem ar unrhyw ŵyn a gollir, er mwyn gwahaniaethu rhwng y rhai a anwyd yn farw a'r rhai a anwyd yn fyw ond yn methu â sugno.

Bydd canfyddiadau'r prosiect yn ychwanegu gwybodaeth werthfawr i'n dealltwriaeth o'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyfradd marwolaeth mewn ŵyn, ac yn bwysicaf oll, beth ellir ei wneud i ddod â chanran yr ŵyn sy'n cael eu magu yn agosach at y canran sganio.

**"Mae'r Coleg yn awyddus i gyflawni'r gwaith hwn gan ein bod yn gweld gwerth cyfradd goroesi uwch i fusnes y fferm, a'r ffaith y dylem fod yn llai parod i dderbyn cyfraddau marwolaeth ŵyn fel ag y maent. Bydd defnyddio technoleg DNA ac EID yn ein cynorthwyo i gasglu gwybodaeth yn ystod cyfnod prysur iawn yng nghalendr y fferm."**

**Dewi Wyn Jones**, rheolwr fferm Llysfasi

Bydd diweddariadau rheolaidd ynglŷn â'r prosiect hwn ar gael ar ein gwefan www.llyw.cymru/cyswlltffermio

# Rhagweld eich llif arian ar gyfer 2016 a pharatoi eich cyllideb

**Gyda phob sector ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru yn wynebu amodau masnach anodd yn ystod 2015, a'r tueddiad yn debygol o barhau yn ystod 2016, bydd hi'n gynyddol bwysig i baratoi cyllideb ar gyfer eich busnes ac i greu rhagolwg manwl o'ch gofynion arian parod.**

Mae'r sector bancio amaethyddol yn gofyn yn gynyddol am fwy o wybodaeth fanwl ynglŷn â pherfformiad busnes gan ffermwyr gan gynnwys gwybodaeth am reolaeth a gofynion arian parod ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir. Yn y blynyddoedd a fu, roedd y rhan fwyaf o ffermydd yn gallu gofyn i'w rheolwr am gynnydd yn eu gorddrafft dros y ffôn; bellach, mae angen cyflwyno rhagolwg llif arian parod yn y rhan fwyaf o achosion i gefnogi'r cais.

Os nad ydych yn paratoi cyllideb a rhagolwg llif arian, mae'n amhosib asesu p'un ai oes gennych ddigon o hyblygrwydd o fewn cronfeydd presennol neu unrhyw gyfyngiadau gorddrafft a gytunwyd.



## PAM PARATOI CYLLIDEB?

1 Canfod anghenion llif arian ar gyfer y 12 mis nesaf
2 Rheoli eich arian
3 Sicrhau eich bod yn gallu parhau i ariannu eich ymrwymiadau presennol
4 Sicrhau bod gennych ddigon o arian ar gyfer prosiectau'r dyfodol
5 Mwy o allu i wneud gwelliannau parhaus ac i ragweld problemau
6 Gwybodaeth ariannol ddiogel i allu seilio eich penderfyniadau

Mae nifer o ffermwyr yn dadlau ei bod yn amhosib i baratoi rhagolwg manwl, gan y gall prisiau nwyddau newid yn sylweddol o fewn 12 mis, ac ni all unrhyw un ragweld y tractor yn torri i lawr neu dywydd gwael yn ystod tymor ŵyna ayyb.

Fodd bynnag, bydd cyllideb ymlaen llaw yn darparu man cychwyn o leiaf, neu darged i geisio ei gyflawni. Os oes rhesymau cyfiawn pam fod yr union bethau'n wahanol i'r gyllideb yn hwyrach yn y flwyddyn, bydd angen mynd i'r afael â hynny a'i reoli'n briodol.





## LLE YDW I'N DECHRAU?

Wrth baratoi eich cyllideb a'ch rhagolwg llif arian, bydd rhai camau allweddol i'w dilyn i sicrhau bod eich cyllidebau a'ch cynlluniau mor realistig a defnyddiol â phosib.

### 1. NEILLTUO AMSER AR GYFER CYLLIDEBU

Efallai nad yw buddsoddi amser mewn paratoi cyllideb fusnes yn uchel iawn ar y rhestr hir o flaenoriaethau, ond, os ydych yn treulio ychydig amser yn creu cyllideb realistig, bydd o fwy o werth i'ch busnes ac yn bendant yn fwy cywir wrth gynorthwyo unrhyw benderfyniadau busnes.

### 2. DEFNYDDIWCH FFIGYRAU LLYNEDD FEL CANLLAW

Mae'n hanfodol i ddefnyddio'r ffigyrau llif arian diweddaraf sydd ar gael wrth baratoi cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Os nad yw'r wybodaeth ynglŷn ag union incwm a gwariant misol ar gael, mae'n bwysig rhoi rhagolygon cywir. Nid yw dibynnu ar adroddiad cyfrifydd, sydd fel arfer yn 18 mis oed, yn addas.

Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd, fe argymhellir defnyddio dadansoddiad o adroddiadau banc y 12 mis diwethaf.

### 3. CREU CYLLIDEBAU REALISTIG

Defnyddiwch wybodaeth hanesyddol ynghyd ag unrhyw newidiadau ym maint, cymysgedd neu berfformiad y fenter i'r gyllideb.

Dechreuwch trwy holi'r cwestiynau canlynol:

- ***Beth yw'r ffrydiau incwm a ragwelir ar gyfer cyfnod y gyllideb?***

Byddwch yn realistig – os ydych yn goramcangyfrif, bydd yn achosi problemau i chi yn y dyfodol.

Mewn busnesau amaethyddol, byddech yn disgwyl i'r canlynol gael eu cynnwys o fewn gwerthiant; gwerthiant da byw, gwerthiant llaeth, gwerthiant gwlân, gwerthiant cnydau, incwm Glastir, incwm contractio, hawliau tramwyfa, ad-daliadau TAW ac unrhyw incwm amrywiol arall. O ran gwerthiant da byw/cynnyrch, gellir cyfrifo rhagolygon manwl trwy baratoi elw gros y fenter, ond, nid oes rhaid gwneud hynny bob tro.

- ***Beth yw'r costau uniongyrchol/ amrywiol ar gyfer cynhyrchiant ar gyfer cyfnod y gyllideb?***

h.y. costau sy'n ymwneud yn uniongyrchol gyda chadw'r da byw neu dyfu'r cnwd, megis dwysfwyd, gwrtaith a hadau, costau milfeddyg a

meddyginiaeth, manion bethau ar gyfer y da byw, cemegau llaeth a chostau ffrwythlonni artiffisial, costau porthiant, comisiwn y gwerthwyr ayyb.

- ***Beth yw'r costau sefydlog neu orbenion?***

Dylech rannu'r costau sefydlog a'r gorbenion yn ôl math, er enghraifft;

- costau cerbydau gan gynnwys tanwydd a chontractio a chludo
- costau eiddo gan gynnwys rhent, atgyweiriadau a chynnal a chadw'r eiddo
- costau gweithwyr e.e. cyflogau, PAYE, staff hunangyflogedig
- gwasanaethau e.e. gwresogi, goleuo, ffôn, ardrethi, dŵr
- argraffu, postio ac offer swyddfa
- costau cyfreithiol a phroffesiynol gan gynnwys yswiriant
- costau amrywiol
- ffioedd banc gan gynnwys ffioedd llog

- ***Beth yw'r gofynion gwariant cyfalaf, tyniadau preifat, treth ac ad-dalu dyledion?***

Sicrhewch eich bod wedi cynnwys digon o arian ar gyfer tyniadau preifat gan gynnwys yswiriant bywyd preifat a phensiynau yn ogystal ag atebolrwydd treth incwm.

Cyfrifwch ad-daliadau benthyciad neu HP yn ogystal â gwariant cyfalaf tebygol yn ystod y cyfnod.

Unwaith y bydd gennych ffigyrau ar gyfer incwm a gwariant, gallwch gyfrifo faint o elw yr ydych yn ei wneud. Gallwch edrych ar gostau a chanfod ffyrdd i'w lleihau. Gallwch weld a ydych yn debygol o gael problemau llif arian, gan roi amser i chi wneud rhywbeth yn eu cylch.

### 4. CYNNWYS Y BOBL IAWN

Os ydych yn cyflogi staff, gwnewch nhw'n rhan o'r gwaith paratoi rhagolygon. Bydd y cysylltiad yn eu gwneud yn fwy ymroddedig i gwrdd ag anghenion y gyllideb. Mae pwyslais sylweddol o fewn y rhaglen Cyswllt Ffermio newydd ar gynllunio busnes, ac mae gweithdai Cynllunio Busnes ar gael yn ogystal â chymorthfeydd busnes un-i-un. Gall busnesau hefyd fanteisio ar gyngor busnes a thechnegol werth dros £1,000, ar gael ar sail un-i-un ac fel grŵp dan Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio. Gall pob busnes ymgeisio am gyngor ariannol hyd at bedair gwaith.

### 5. ADOLYGWCH EICH CYLLIDEB YN RHEOLAIDD

Pan fyddwch wedi llunio cyllideb, dylech gadw ati cymaint â phosib, ond adolygwch a diwygiwch y gyllideb yn ôl yr angen. Mae'r rhan fwyaf o fanciau erbyn hyn yn gofyn bod cyllidebau'n cael eu monitro yn rheolaidd sy'n arfer wych. Os oes angen cyfiawnhau pob cost yn rheolaidd, bydd angen meddwl mwy am ba mor angenrheidiol yw'r gwariant.

## NEGESEUON ALLWEDDOL AR GYFER 2016

- Dan yr amodau masnach anodd presennol, mae paratoi cyllideb flynyddol a rhagolygon llif arian misol yn hanfodol.
- Sicrhewch eich bod yn defnyddio prisiau realistig ar gyfer gwerthiant stoc/llaeth a byddwch yn ofalus gyda niferoedd y stoc i'w gwerthu/litrau a gynhyrchwyd ayyb - peidiwch â goramcangyfrif gan y gallai hynny achosi problemau'n nes ymlaen. Mae'n llawer gwell i orgyrraedd y targedau incwm yn hytrach na methu â'u cyrraedd.
- Cyfrifwch y taliad Cynllun Taliad Sylfaenol 2016 gan ddefnyddio'r gyfrifiannell sydd ar gael ar **http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/schemes/basic-payment-scheme/basic-payment-scheme-payment-calculator/?skip=1&lang=cy**
- Seiliwch y ffigyrau rhagolwg ar union ffigyrau'r llynedd. Bydd cynhyrchu rhagolygon sy'n dipyn gwell na'r perfformiad a gyrhaeddwyd y llynedd yn codi mwy o gwestiynau. Os oes rheswm penodol pam y dylai'r perfformiad wella, dylid egluro hynny yn fanwl.
- Cofiwch gynnwys cymaint o dybiaethau â phosib yn eich cyllideb e.e. dangoswch yn fanwl sut y byddwch yn cyflawni'r ffigyrau hyn.

Ar gyfer cefnogaeth a hyfforddiant, mae Rhaglen Ddysgu a Datblygu Gydol Oes Cyswllt Ffermio yn cynnig cymorth ariannol o 80% i gwblhau cyrsiau hyfforddiant achrededig byr. Mae'r rhain yn cynnwys pynciau megis cofnodion ariannol, deall cyfrifon, rheoli llif arian a chynllunio busnes.

Am fwy o fanylion ynglŷn â chyrsiau, darparwyr hyfforddiant a sut i wneud cais ar gyfer cymorth ariannol, ewch i'r wefan https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/hyfforddiant








*Cara Wales Ltd, cyngor ac ymgynghoriaeth wledig ac amaethyddol*

# MENTRO

**MENTRO yw'r platfform cyfleoedd ar y cyd newydd a ddatblygwyd ar gyfer Cyswllt Ffermio i helpu i baru ffermwyr a thirfeddianwyr presennol gyda newydd ddyfodiaid sy'n chwilio am lwybr i mewn i ffermio.**

**CEFNOGI** MENTRAU AR Y CYD
**SUPPORTING** JOINT VENTURES

Mae Mentro yn darparu cefnogaeth, arweiniad a chyfleoedd ar gyfer datblygiad busnes a phersonol fydd yn gamau defnyddiol i bobl sy'n chwilio am lwybr i'r diwydiant ffermio yng Nghymru, yn ogystal ag unigolion sy'n dymuno ehangu eu busnes presennol neu'r rhai sy'n dymuno camu'n ôl o'r diwydiant.

Bydd pecyn integredig o hyfforddiant, mentora, cyngor arbenigol a chefnogaeth busnes yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i'r ddwy ochr i'w cynorthwyo i gyflawni eu nodau.

Yn dilyn yr ail o bedair sioe deithiol Mentro, derbyniodd Cyswllt Ffermio 65 datganiad o ddiddordeb yn y cynllun – 63% gan newydd ddyfodiaid a 37% gan ffermwyr presennol.

Am fwy o fanylion ynglŷn â Mentro, ewch i **https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/mentro** neu cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol.

## ASTUDIAETH ACHOS:

Mae John Warburton-Lee yn berchen ar fferm fynydd 422 erw ger Wrecsam sy'n cael ei ffermio gan ffermwr lleol, Trystan Edwards, dan drefniant ffermio cytundeb da byw.

Mae'r fferm yn cynnal 1,000 o famogiaid Mynydd Cymreig gyda 200 o famogiaid cyfnewid, ac yn gwerthu ŵyn wedi'u pesgi ac fel stôr. Mae'r fferm yn derbyn rhai gwartheg yn yr haf er mwyn cynorthwyo gyda rheolaeth glaswellt ac mae'r fferm gyfan yn rhan o gynllun Glastir.

Mae Mr Edwards yn derbyn ffi sylfaenol i dalu am gostau'r holl ofynion peiriannau a llafur, ac mae Mr Warburton-Lee yn cadw 'taliad cyntaf' am ddarparu'r tir, yr adeiladau a'r ardaloedd trin defaid. Mae'r ddwy ran yn derbyn taliad i adlewyrchu'r cyfalaf sydd wedi'i fuddsoddi mewn bridio, sy'n berchen i'r ddwy ochr mewn rhaniad 70:30. Mae'r gweddill sy'n rhanadwy yn cael ei rannu 70:30 gyda Mr Edwards yn derbyn y gyfran uchaf.

Gwneir penderfyniadau ar y cyd dros y system da byw a'r polisi bridio, gyda Mr Edwards yn cynnig arbenigedd hwsmonaeth, ac mae mewnbwn proffesiynol yn rhoi'r ffocws ariannol i'r busnes.

Dywedodd Mr Warburton-Lee bod y fenter ar y cyd wedi'i sefydlu i sicrhau bod yr adnoddau ar ei fferm yn cael eu defnyddio'n llawn i ddatblygu busnes proffidiol a chredadwy ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae hefyd yn ei alluogi i ddilyn diddordebau busnes eraill ac yn cynnig manteision o ran treth incwm a chyfalaf. Mae'n credu ei fod yn well ffordd o sicrhau canlyniadau busnes llwyddiannus trwy ddod â sgiliau, gwybodaeth, creadigrwydd a brwdfrydedd gan eraill, sy'n cael cymhelliant ariannol er mwyn iddo lwyddo.

Er mwyn i fenter ar y cyd fod yn llwyddiant, mae Mr Warburton-Lee yn dweud y dylai'r ddwy ochr fod yn hyderus yng ngallu ei gilydd a dylent hefyd fod yn agored i syniadau newydd a dulliau newydd o weithio.



# Swyddogion Technegol

Mae wyth swyddog technegol yn darparu arbenigedd penodol i'r sector wrth ddatblygu a gweithredu treialon ar gyfer rhwydwaith safleoedd arloesedd, arddangos a ffocws Cyswllt Ffermio ynghyd â gweithgareddau Trosglwyddo Gwybodaeth eraill. Bydd pob rhifyn yn canolbwyntio ar swyddog technegol gwahanol.

## Jamie McCoy - Swyddog Technegol Llaeth



Bu Jamie yn gweithio ar y rhaglen Cyswllt Ffermio flaenorol, yn fwyaf diweddar fel hwylusydd Trosglwyddo Gwybodaeth ac fel uwch swyddog ymgysylltu Llaeth AHDB, yn ne Sir Benfro, lle bu'n cynnal grwpiau trafod a chyfarfodydd agored, gyda digwyddiadau yn amrywio o deithiau fferm i gyfarfodydd meincnodi.

Graddiodd o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd BSc Anrh. mewn Amaeth yn 2009, yn dilyn blwyddyn yn byw ac yn gweithio yn Seland Newydd. Er mai o gefndir ffermio defaid y daw Jamie, mae bellach yn ffermio gyda'i phartner yng Nghastell Newydd Emlyn, ar uned laeth yn seiliedig ar laswellt. Mae'r 170 o wartheg yn lloea yn yr hydref, ac maent hefyd yn cadw diadell fasnachol o 150 mamog ar y fferm.

Cwblhaodd Jamie ysgoloriaeth Nuffield yn ddiweddar yn edrych ar 'Gyfleoedd ar gyfer y fferm deuluol fechan' ac fe deithiodd i 12 gwlad dros gyfnod o ddwy flynedd yn astudio'r pwnc. Mae'n hapus i rannu ei harsylwadau a'i hargymhellion, gan weithio tuag at wireddu diwydiant amaeth effeithlon a phroffidiol yng Nghymru. Mae Jamie yn cydnabod er bod nifer o ffermwyr hynod o flaengar yng Nghymru, mae gennym i gyd le i wella, yn ffermio o fewn amgylchedd byd-eang sy'n newid yn barhaus. Bydd Jamie yn darparu amrywiaeth o brosiectau sy'n berthnasol i bob math o systemau, gyda'r nod o ymdrin â'r themâu canlynol sy'n flaenoriaeth;

- Rheolaeth a chynllunio busnes
- Cynhyrchiant y fferm
- Iechyd a lles anifeiliaid
- Effeithlonrwydd ynni ac adnoddau
- Defnydd effeithiol o ddwysfwyd a phorthiant

## DIGWYDDIADAU

### CYMORTHFEYDD CYNLLUN DATBLYGU PERSONOL

Mae cyfres o gymorthfeydd Cynllun Datblygu Personol wedi'u trefnu lle bydd ein tîm o Swyddogion Datblygu lleol a darparwyr hyfforddiant wedi'u cymeradwyo yn gallu eich cynorthwyo gyda chwblhau eich Cynllun Datblygu Personol ar lein.

| DYDDIAD | AMSER | LLEOLIAD | CYSWLLT |
|---|---|---|---|
| 14 Mawrth 2016 | 09:00 – 17:00 | UAC, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BG | Menna Williams 07896 837725 |
| 17 Mawrth 2016 | 18:30 – 20:30 | Clwb Golff Raglan Parc NP15 2ER | Catherine Smith 07974 655774 |
| 22 Mawrth 2016 | 09:00 – 17:00 | Menter a Busnes, Aberystwyth SY23 3AH | Eleri Jewell 07985 379887 |
| 23 Mawrth 2016 | 09:00 – 17:00 | Canolfan Hermon, Hermon SA36 0DT | Fflur Davies 07985 379927 |
| 24 Mawrth 2016 | 09:30 – 16:30 | PMR, 12 Heol yr Afr, Hwlffordd SA61 1PX | Rebecca Summons 07867 908193 |
| 31 Mawrth 2016 | 15:00 – 19:00 | Gwesty'r Bull, Llangefni, LL77 7LR | Trystan Siôn 07985379821 |

Am fanylion ynglŷn â'r **cymorthfeydd a gynhelir ym mis Ebrill**, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygiad lleol.

### CYMORTHFEYDD ADOLYGU BUSNES

Datblygu, gweithredu a gwerthuso cynlluniau ar gyfer eich busnes gydag ymgynghorydd busnes profiadol i'ch cynorthwyo i ehangu ac atgyfnerthu eich busnes. Gellir defnyddio'r apwyntiad cymhorthfa un-i-un i werthuso perfformiad eich busnes ac mae'n gyfle i ystyried opsiynau i gynyddu proffidioldeb eich busnes. Os ydych eisoes wedi ysgrifennu eich cynllun busnes eich hun, gellir defnyddio'r gymhorthfa Adolygu Busnes i wirio a chymeradwyo'r cynllun busnes er mwyn cael mynediad at gyngor technegol dan ein Gwasanaeth Cynghori. Cynhelir cymorthfeydd rhwng **9yb** a **5yp**.

| DYDDIAD | LLEOLIAD (location details confirmed with appointment) |
|---|---|
| 05 Mai 2016 | Abergwaun |
| 17 Mai 2016 | Y Fenni |
| 19 Mai 2016 | Y Trallwng |
| 24 Mai 2016 | Y Bala |
| 26 Mai 2016 | Llangurig |
| 07 Mehefin 2016 | Yr Wyddgrug |
| 14 Mehefin 2016 | Llangefni |
| 21 Mehefin 2016 | Penybont-ar-Ogwr |

I drefnu apwyntiad, cysylltwch â **Catrin Lloyd** ar **02920 467418** neu anfonwch e-bost at **catrin.lloyd@menterabusnes.co.uk**. Am fwy o fanylion ynglŷn â digwyddiadau Cyswllt Ffermio, ewch i https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/digwyddiadau